Rhifyn 2, Mawrth 10 Pris: £1

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

yr Athro

UCAC yn ymgyrchu

Rydym yn wynebu cyfnod arbennig o bryderus o ran ariannu'r system addysg. Gallwn ddisgwyl teimlo gwir effeithiau'r wasgfa economaidd dros y blynyddoedd nesaf, a hynny mewn meithrinfeydd, ysgolion, colegau a phrifysgolion, fel ei gilydd.

Mae UCAC yn gweithio'n galed ar ran ei aelodau, ac ar ran system addysg Cymru, i gyfyngu ar y niwed y gall unrhyw doriadau eu hachosi. Mae UCAC yn ymgyrchu, bob cyfle posib, i gyfyngu ar y toriadau, ac i sicrhau bod cyn lleied â phosib o ddiswyddiadau, ac yn arbennig diswyddiadau gorfodol.

Nid yw addysg a hyfforddiant yn colli eu pwysigrwydd ar adeg o ddirwasgiad – i'r gwrthwyneb. Rhaid meithrin sgiliau'n plant, pobl ifanc ac oedolion yn fwy nag erioed. Rhaid felly i'r system addysg gael ei hariannu'n deg ac yn ddigonol. Dyna neges UCAC i Lywodraeth y Cynulliad ac i Lywodraeth San Steffan.

Ar ôl y Pasg, bydd UCAC yn rhoi tystiolaeth i adolygiad y Gweinidog Addysg i ariannu gweinyddiad y system addysg (h.y. costau biwrocratiaeth). Os oes gennych dystiolaeth i'w rhannu, ac enghreifftiau o arian yn cael ei wastraffu, cysylltwch â ni.

Y Cynllun Fetio a Gwahardd

Cefndir
O dan y cynllun newydd hwn, bydd yn rhaid i bawb sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed gofrestru gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol – ADA (*Independent Safeguarding Authority - ISA*); bydd hyn yn cynnwys pob athro, a'r rhan fwyaf o ddarlithwyr.

Yn gryno:

- bydd yr ADA/*ISA* yn llunio rhestr o unigolion sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant, a rhestr arall o unigolion sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion agored i niwed
- bydd yn drosedd i unigolion sydd wedi'u gwahardd weithio, neu wneud cais i weithio, gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed
- bydd yn drosedd i gyflogwyr gyflogi unigolyn sydd wedi'i wahardd
- bydd gan gyflogwyr, awdurdodau lleol, rheoleiddwyr proffesiynol a chyrff eraill ddyletswydd i gyfeirio gwybodaeth at yr ADA/ISA am unigolion os ydynt yn ystyried eu bod wedi niweidio, neu fod perygl iddynt niweidio, plant neu oedolion sy'n agored i niwed

Bydd angen i weithwyr cyflogedig (h.y. nid gwirfoddolwyr) dalu cyfanswm o £64 i gofrestru gyda'r ADA/*ISA* – sef £28 i gofrestru, a £36 am ddatgeliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Ymgyrch UCAC
Mae UCAC, ynghyd ag undebau eraill ar lefel Brydeinig, yn ymgyrchu'n galed i sicrhau bod Llywodraeth San Steffan yn gwneud y gwelliannau canlynol i'r cynllun:

- **Sicrhau nad yw'r broses yn dyblygu cofrestru ar gyfer y rhai sydd eisoes ar gofrestr broffesiynol berthnasol.**
  Rydym ni o'r farn na ddylai unigolion sydd eisoes wedi'u cynnwys ar gofrestr broffesiynol, megis cofrestr Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, orfod cofrestru'n ogystal gyda'r ADA/*ISA*. Byddai modd sefydlu system o gydweithredu rhwng cyrff rheoleiddio a'r ADA/*ISA*.
- **Ei gwneud yn orfodol i gyflogwyr dalu ffi gofrestru'r cynllun yn hytrach na gofyn i'r ymgeisydd ei thalu.**
  Fel arfer, cynhwysir gwiriad cofnodion troseddol ym mhrosesau a chostau recriwtio'r cyflogwr. Nid felly gyda'r ADA/*ISA* ble disgwylir i weithwyr dalu drosto'u hunain.

  Yn ogystal, mae UCAC yn ymgyrchu i sicrhau na fydd yn rhaid gwneud prawf CRB drosodd a throsodd ar gyfer swyddi ac Awdurdodau Lleol gwahanol.
- **Sicrhau'r hawl i gael gwrandawiad teg ac apêl.**
  Mae'n holl bwysig bod pawb yn cael yr hawl i wrandawiad teg, a bod unrhyw systemau neu brosesau newydd yn cydymffurfio ag ymarfer gorau sy'n bodoli eisoes, ac â phob deddfwriaeth, gan gynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol.

Sut alla' i helpu'r ymgyrch?
Os hoffech ymuno â'r ymgyrch, ysgrifennwch lythyr neu ebost gan ddefnyddio'r pwyntiau uchod at:

- Eich Aelod Seneddol
  Tŷ'r Cyffredin
  Llundain SW1A 0AA
- Yr Ysgrifennydd Gwladol/Secretary of State
  Department for Children, Schools and Families
  Sanctuary Buildings, Great Smith Street, London SW1P 3BT

  dcsf.ministers@dcsf.gsi.gov.uk

t2 Cynadleddau t3 Pobl Ifanc mewn Byd Digidol t4 Adnoddau

Cynadleddau!

Bu mis Ionawr a Chwefror yn brysur gyda Chynadleddau Sir dros Gymru gyfan – er gwaetha'r tywydd garw. Daeth nifer o faterion o bryder i'r amlwg yn y cynadleddau, gan gynnwys:

- ariannu ym mhob sector ledled Cymru, a'r oblygiadau posib ar gyfer swyddi, amodau gwaith a safonau
- sgil-effeithiau'r rheoliadau newydd ynghylch 'prin gyflenwi'
- cynlluniau 'Trawsnewid' 14-19 mewn nifer o siroedd ac yn arbennig yr oblygiadau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg
- problemau e-dechnoleg, yn enwedig sylwadau annoeth a lluniau amhriodol wedi'u postio gan ddisgyblion, rhieni – ac athrawon - ar *Facebook*

Ffurfiwyd cynigion i'w trafod yn y Gynhadledd Flynyddol a gynhelir eleni yng **Ngwesty'r Celt, Caernarfon, ar 23-24 Ebrill**. Y siaradwr gwadd fydd **Hywyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Ddinbych**.

Mae pob Sir yn danfon cynrychiolaeth i'r Gynhadledd Flynyddol, ac mae gan bob aelod yr hawl i fynychu fel unigolyn. Os na fyddwch yn gallu dod i'r Gynhadledd, ond eich bod yn awyddus bod mater penodol yn cael sylw, cysylltwch â'ch Ysgrifennydd Sir neu'ch Swyddog Maes. Mae rhagor o fanylion i'w cael o'r Brif Swyddfa.

Bydd unrhyw gynigion sy'n cael eu derbyn gan y Gynhadledd Flynyddol yn dod yn rhan o bolisi UCAC ac yn sail ar gyfer ymgyrchu dros y flwyddyn (a'r blynyddoedd) i ddod.

Cynhadledd Sir y Fflint - Swyddogion y Gymdeithas Sir gyda'r Llywydd Cenedlaethol

O'r chwith: Bryn Jones, Ysgrifennydd; Edwin Jones, Cadeirydd; Gwynn Griffith, Llywydd Cenedlaethol; Gwilym Hughes, Is-Gadeirydd a chyn-Ysgrifennydd

Llongyfarchiadau i Bryn ar ei benodiad yn Ysgrifennydd Sir newydd a diolch i Gwilym am flynyddoedd o wasanaeth yn y swydd honno.

Swyddi Gwag

Adran Cyhoeddiadau a Chyfathrebu UCAC
Mae llefydd yn wag ar Adran Gyhoeddiadau a Chyfathrebu UCAC – hoffech chi fod yn aelod?

Mae'r Adran yn cwrdd unwaith y tymor ym mhrif swyddfa UCAC yn Aberystwyth i drafod materion sy'n ymwneud â chyhoeddiadau UCAC a chyfathrebu mewnol ac allanol, gan gynnwys y wefan, presenoldeb yr undeb mewn digwyddiadau fel yr Eisteddfodau ac ati. Mae'n gyfle i ddylanwadu ar y ffordd mae'r undeb yn cysylltu â'i aelodau ac â'r cyhoedd.

Mae UCAC yn talu costau teithio'r aelodau, a dylai bod modd i ysgol hawlio'r costau cyflenwi gan yr AALl. Os oes diddordeb, rhowch wybod cyn gynted â phosib i Ysgrifennydd yr Adran: elaine@athrawon.com

Ysgrifenyddion Cymdeithasau Sir
Mae swyddi Ysgrifenyddion Cymdeithasau Sir yn wag yn y siroedd canlynol:

- Bro Morgannwg
- Caerdydd
- Pen-y-bont ar Ogwr

Os hoffech chi fod yn Ysgrifennydd Sir, neu os ydych yn adnabod rhywun fyddai'n awyddus i fod, cysylltwch â Phrif Swyddfa UCAC. Mae croeso mawr i chi gysylltu am ragor o wybodaeth am y rôl.

Partneriaethau Cymdeithasol Lleol
Mae pwyllgorau sirol 'Partneriaethau Cymdeithasol Lleol' (*Local Social Partnerships*)* yn dod yn fforymau cynyddol bwysig o ran rhannu gwybodaeth rhwng Awdurdodau Addysg Lleol ac undebau; yn ogystal, mae'n debygol y bydd gan y pwyllgorau hyn rôl bwysig wrth geisio datrys unrhyw anghydfod sy'n deillio o'r Cytundeb Llwyth Gwaith, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â Phrin Gyflenwi.

Am y rhesymau hynny, mae'n bwysig iawn bod gan UCAC gynrychiolaeth ym mhob sir. Ar hyn o bryd nid oes cynrychiolydd yn y pwyllgorau canlynol:

- Bro Morgannwg
- Môn, Conwy a Gwynedd
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Powys
- Sir Fynwy

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os hoffech chi neu gyd-aelod fynychu'r cyfarfodydd ar ran UCAC yn eich sir, cysylltwch â swyddfa UCAC.

* Mewn rhai siroedd, caiff y pwyllgorau hyn eu hadnabod dan enwau gwahanol – dyma rai ohonynt: *Workload Steering Group*; *Workload Agreement Monitoring Group (WAMG)*; *Remodelling/Change Management Group/Partnership*

Swyddogion UCAC – ar gael i chi

Cofiwch fod Swyddogion UCAC yn fodlon ymweld â'ch ysgol, coleg neu brifysgol i drafod unrhyw bwnc sy'n peri gofid neu benbleth i chi a'ch cydweithwyr. Cysylltwch â'r Brif Swyddfa i drafod dyddiadau.

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Gwynn Griffith
Is-Lywydd: Linden Evans
Ysgrifennydd Cyffredinol: Elaine Edwards
Cyd-lynydd *Yr Athro*: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys *Yr Athro* o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu i'r cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Rebecca Williams, Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950, Ffacs: 01970 626765, rebecca@athrawon.com, www.athrawon.com
Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

Estyn

Ann Keane

Prif Arolygydd dros dro
Mae Ann Keane wedi'i phenodi'n Brif Arolygydd Estyn dros dro, wedi ymadawiad Bill Maxwell i ddychwelyd i'r Alban i fod yn Brif Arolygydd yno. Gwneir penodiad tymor hir yn yr hydref.

Mae Ann Keane, sy'n siarad Cymraeg, wedi gweithio i Estyn ers 1984. Cafodd ei geni yng Nghaerfyrddin a mynychodd Ysgolion Cynradd Llanboidy a Llanymddyfri, ac Ysgol Pantycelyn, Llanymddyfri, ac yna Ysgol Ramadeg Ystalyfera ac Ysgol Ramadeg Llandysul.

Astudiodd yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ysgol Economeg Llundain a Choleg Prifysgol Llundain, a bu'n athrawes/darlithwraig yn Ysgol Uwchradd Brentside, Coleg Technegol Merthyr Tudful, Coleg Celf Harrow, Coleg Celf Caergaint ac Athrofa Addysg Uwch Essex (Prifysgol Anglia Ruskin erbyn hyn).

Mae hi'n wyneb cyfarwydd i Swyddogion UCAC, ac i nifer fawr o aelodau UCAC mae'n siŵr. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda hi dros y misoedd i ddod.

Fframwaith Arolygu newydd
A yw'ch ysgol wedi'i harolygu'n ddiweddar o dan Fframwaith Arolygu newydd Estyn? Os felly, mae Swyddogion UCAC yn awyddus iawn i glywed eich barn. Sut brofiad oedd yr arolwg newydd? Sut oedd y profiad yn cymharu ag arolygon o dan yr hen Fframwaith?

Bydd Estyn yn gwneud newidiadau i'r Fframwaith cyn iddi ddod yn gwbl derfynol, ac mae UCAC yn awyddus i fwydo profiadau athrawon yn ôl i Estyn er mwyn dylanwadu ar ei ffurf derfynol. Cysylltwch â ni i fynegi barn:
elaine@athrawon.com / rebecca@athrawon.com

Gwobrau Ysbrydoli Cymru

Mae'r Sefydliad Materion Cymreig wedi lansio Gwobrau Ysbrydoli Cymru er mwyn codi proffil y cyfraniad a wneir gan unigolion eithriadol i'n cymdeithas.

Mae modd ymgeisio am y gwobrau, neu enwebu rhywun arall. Rhaid i ymgeiswyr fod yn byw ac yn gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae 10 categori, ac ymhlith y rhain mae:

- **Addysgwr** (dyddiad cau: 16 Ebrill) Unigolyn, athro, darlithydd neu hyfforddwr yn y gweithle sydd wedi arwain menter a nodwyd fel enghraifft o arfer da yn ei (h)ardal, rhanbarth neu ledled Cymru.
- **Cymraeg yn y Gweithle** (dyddiad cau: 23 Ebrill) Sefydliad sydd wedi cymryd camau gweithredol i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad, gan gael effaith gadarnhaol.
- **Cyflawnydd Ifanc** (dyddiad cau: 30 Ebrill) Cyflawniad eithriadol gan berson ifanc o dan 18 oed mewn unrhyw faes.
- **Chwaraeon** (dyddiad cau: 30 Ebrill) Cyflawniad eithriadol gan unigolyn sydd wedi ysbrydoli eraill i gyflawni ym maes chwaraeon yn eu cymunedau lleol, eu rhanbarth neu ledled Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwobrau a sut i ymgeisio neu enwebu, ewch i: www.iwa.org.uk/inspire/c_index.php neu cysylltwch â'r Sefydliad Materion Cymreig ar 029 2066 0820 neu emmabrennan@iwa.org.uk

DARC Diogelwch ar y Rhyngrwyd Cymru
Hybu Llythrennedd Digidol i Blant a Phobl Ifanc Cymru

WISE KIDS

Pobl Ifanc mewn Byd Digidol – Paratoi, Cefnogi ac Ysbrydoli

Cynhaliwyd dwy gynhadledd ym mis Chwefror, gyda nawdd gan UCAC, ar y thema 'Pobl Ifanc mewn Byd Digidol – Paratoi, Cefnogi ac Ysbrydoli.' Cafodd y cynadleddau, y naill yn Abertawe a'r llall ym Mangor, eu trefnu gan fudiad WISE KIDS ar y cyd â phartneriaeth Diogelwch ar y Rhyngrwyd Cymru (DARC/WISP) – partneriaeth y mae UCAC yn aelod ohoni.

Daeth cynulleidfaoedd mawr ynghyd yn y ddwy ganolfan, i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc mewn byd sy'n gynyddol ddigidol. Roedd ffocws yn y cynadleddau ar weithredu ymarferol, ac ar yr hyn y gall y llywodraeth, y diwydiant a gweithwyr proffesiynol – gan gynnwys athrawon a darlithwyr - ei wneud i baratoi, cefnogi ac ysbrydoli pobl ifanc, i sicrhau eu bod yn abl i ddefnyddio'r technolegau hyn yn effeithiol ac yn ddiogel.

Cafodd **Rhwydwaith Ieuenctid Cymru Ddigidol** ei lansio, sef rhwydwaith arlein ar gyfer y rheiny sy'n gweithio gyda phobl ifanc er mwyn rhannu arfer gorau ar y cymorth a'r gefnogaeth a roddant i bobl ifanc ym maes TGCh. Cewch fynediad i'r rhwydwaith yma: http://digitalyouthwales.ning.com

Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes agorodd y gynhadledd yn Abertawe, a dywedodd: "Mae'r Rhyngrwyd yn cynnig adnoddau dysgu ac addysgu sydd yn llythrennol yn fyd-eang. Mae'n rhan annatod o fywydau plant a phobl ifanc ac maent yn anhygoel o fedrus ar ddefnyddio'r dechnoleg i gael gwybodaeth neu er mwyn cael hwyl. Mae'n bwysig harneisio'u sgiliau a'u brwdfrydedd fel y gall defnyddio TGCh wella ar bob agwedd o'u dysgu, ond rhaid i ni gydweithio i sicrhau eu bod, wrth ddefnyddio'r we, yn gwneud hynny'n ddiogel."

Am ragor o wybodaeth am WISE KIDS a'r gynhadledd:
www.wisekids.org.uk

Cofiwch hefyd am daflen gwybodaeth UCAC 'Defnydd Diogel a Chyfrifol o E-Dechnoleg':
www.athrawon.com/images/Upload/E-DechnolegGTGHG.pdf

Disgyblion Ysgol y Preseli yn gwneud cyflwyniad am e-dechnoleg yng nghynhadledd WISE KIDS

Cyrsiau Cyfanfyd

Mae Cyfanfyd yn sefydliad sy'n hyrwyddo Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) yng Nghymru. Mae'n cynnig y cyrsiau canlynol a allai fod o ddiddordeb i aelodau UCAC:

Fforwm Blynyddol Cyfanfyd
18 Mai, Caerdydd
Siaradwyr gwadd, cyfleoedd rhwydweithio ac adolygiad o raglen Cyfanfyd ym meysydd dysgu gydol oes, gwaith ieuenctid byd-eang a'r sector ffurfiol.

Hyfforddiant i Hyfforddwyr mewn ADCDF
22–24 Mehefin, Broneirion, Llandinam / 23–25 Tachwedd, lleoliad i'w gadarnhau
Cwrs hyfforddi preswyl am dridiau i hyfforddwyr o bob sector ym myd addysg sy'n dymuno datblygu'u harfer ym maes ADCDF.

Deall a Chymhwyso Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang
21 Medi, lleoliad yn y gogledd i'w gadarnhau / 23 Medi, lleoliad yn y de i'w gadarnhau
Cwrs undydd fydd yn rhoi hyfforddiant rhagarweiniol i unigolion a sefydliadau y mae ADCDF yn newydd iddynt.

Os hoffech ragor o fanylion, cysylltwch â Chyfanfyd:
029 2066 8999 | info@cyfanfyd.org.uk | www.cyfanfyd.org.uk

Llawlyfr Unionlearn a'r FSA

Gwyddom fod nifer fawr o athrawon ledled Cymru'n wynebu sefyllfa o ddiswyddo, neu dorri ar eu horiau gwaith. Mae UCAC yn gweithio'n galed dros bob aelod i sicrhau nad ydynt yn colli swydd, neu i sicrhau eu bod yn cael y telerau gorau posib os nad oes modd osgoi diswyddo.

Mae Unionlearn (adain addysgol y TUC) wedi cyhoeddi llawlyfr, rhad ac am ddim, ar y cyd gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) i gynnig cymorth i'r sawl sydd mewn perygl o golli swydd neu oriau gwaith, neu sydd wedi colli swydd. Mae'r llawlyfr, sydd yn Saesneg, yn cynnig cyngor ar faterion megis pryderon am ddiswyddo, hawliau diswyddo, rheoli arian a budd-daliadau.

Mae modd archebu copi o'r llawlyfr yma:
www.unionlearn.org.uk/initiatives/learn-3218-f0.cfm

Croeseiriau Cymraeg

Gyda chymorth Mid-Wales Net, mae Alick Hartley wedi rhoi ei lyfrau 'Croeseiriau Darluniau Cymraeg' a 'Chwiloteiriau Llun Cymraeg a Saesneg' ar y we i'w lawr-lwytho a'u defnyddio'n rhad ac am ddim: www.cymraeg.easyitis.net

GCaD CYMRU NGfL

Ewch i wefan GCaD Cymru (www.gcad-cymru.org.uk) er mwyn gweld yr adnoddau rhyngweithiol *rhad ac am ddim* sydd yno ar eich cyfer. Dyma ychydig o enghreifftiau:

CA2 – Cyflwyniad i daenlenni 1

Mynediad trwy ddilyn: CA2 > TGCh > Cyflwyniad i daenlenni 1
Adnodd rhyngweithiol sydd yn seiliedig ar gyfrifon syml siop ysgol ac sydd yn cyflwyno elfennau sylfaenol taenlen gan gynnwys fformwlâu syml. Mae'r adnodd yn defnyddio animeiddiad er mwyn cyflwyno prif rannau'r daenlen a phum fformwla sylfaenol sef adio, tynnu, lluosi, rhannu a'r fformwla ar gyfer cyfartaledd. Mae uned 2 a 3 yn addas ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4.

CA2 – Ydych chi'n ddoeth neu'n wastraffus?

Mynediad trwy ddilyn: CA2 > Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang
Mae'r gweithgaredd rhyngweithiol hwn yn annog plant i feddwl am ffynhonnell eu dŵr a faint ohono a ddefnyddir ganddynt yn ystod diwrnod arferol. Gall y defnyddwyr deithio o amgylch rhith dŷ gan wneud dewisiadau sy'n seiliedig ar eu profiadau eu hunain er mwyn canfod sut y caiff dŵr ei ddefnyddio'n ddoeth neu yn wastraffus.

CA3 – Mathemateg

Mynediad trwy ddilyn: CA3 > Mathemateg > Siâp > Nodweddion siâp > Stacio Blychau
Ymchwiliad mathemategol pen agored sydd yn rhoi sylw i batrymau siâp.

U / UG - Cymraeg

Mynediad trwy ddilyn: U/UG > Cymraeg > Hedd Wyn
Pecyn o glipiau a gweithgareddau i gynorthwyo athrawon a disgyblion i astudio'r ffilm 'Hedd Wyn' ar gyfer arholiad llafar CY1.

Gwasanaethau Salon

Mynediad trwy ddilyn: Galwedigaethol > Gofal Teulu, Datblygiad Personol, Gofal ac Ymddangosiad Personol > Trin Gwallt
Dyma adnodd newydd sy'n paratoi dysgwyr at arholiad ar-lein sy'n rhan o'r cwrs Gwasanaethau Salon (C&G). Mae yma ymarferion sy'n dilyn patrwm yr arholiad ar-lein ac mae dros 70 o gwestiynau amrywiol i'w hateb. Mae'r meysydd yn amrywio o wasanaeth cwsmeriaid i iechyd a diogelwch.

Adeiladwaith a'r Amgylchedd Adeiledig

Mynediad trwy ddilyn: Galwedigaethol > Adeiladwaith ac Eiddo (Amgylchedd Adeiledig) > Astudiaethau Adeiladwaith Proffesiynol > Lefel 2 > Adeiladwaith a'r Amgylchedd Adeiledig
Mae'r adnodd yma, sy'n cynnwys 3 uned, yn cefnogi manyleb Adeiladwaith a'r Amgylchedd Adeiledig lefel 2. Cafodd ei gynllunio fel bod modd i athrawon ei ddefnyddio ar gyfer addysgu dosbarth cyfan trwy gymorth taflunydd, neu fwrdd gwyn rhyngweithiol neu i ddysgwr ei ddefnyddio ar gyfer hunanastudiaeth ac adolygu.

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu sylwadau, cofiwch gysylltu â GCaD Cymru ar 029 2026 5177 neu gwybodaeth@gcad-cymru.org.uk